Cystadleuaeth Beicio Mynydd: Rownd Derfynol 2014

Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd nifer o gystadlaethau beicio mynydd rhanbarthol ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy. Cawsant eu trefnu ar y cyd gan 5x60 a'r Bartneriaeth Awyr Agored gyda chymorth gan Feicio Cymru.

Cymrodd dros 200 o blant ran yn y rowndiau cyntaf o gydag 21 ysgol yn gyfan gwbl.

Aeth enillwyr y rowndiau cyntaf yma yn eu blaenau i gystadlu yn y rownd derfynol yn Nant Bwlch yr Haearn.

Yn ystod y rownd derfynol ar Fehefin yr 11eg, gwelwyd dros 60 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a noddwyd gan Evolution Bikes, Bangor http://www.evolution-bikes.co.uk/ . Cafodd y beics eu darparu gan Rhyddid Adventures http://rhyddidadventures.wix.com/homepage#.

Bu rasys ar gyfer…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 13, 2014**

Gwirfoddolwr y mis: Mai 2014

David Hughes, Grŵp Awyr Agored Plas Heli.

Fel cydlynydd cymunedol penodedig grŵp awyr agored Plas Heli ym Mhwllheli, mae David yn gyfrifol am gydlynu'r adeiladwaith newydd ym Marina Pwllheli er mwyn creu Canolfan Ddigwyddiadau ac Academi Hwylio Genedlaethol yng Nghymru. Mae'r adeiladwaith yma'n rhan o brosiect £8.3M sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru ac mi fydd wedi'i chwblhau erbyn 2015.

Mae David yn trefnu digwyddiadau yn ardal Pwllheli, ac un o'i lwyddiannau diweddaraf oedd trefnu Triathlon Pwllheli lle gwelwyd dros 170 yn cymryd rhan. Dangosodd David ymroddiad llwyr i'r prosiect ac fe roddodd o'i amser a'i…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 12, 2014**

Digwyddiadau

- Gwobrau Cerdded (Mentora) Rf:2
  Mehefin 18, 2014
- Gwobr Dringen Sengl (Mentora) Rf...
  Mehefin 22, 2014
- Cwrs Cymorth cyntaf REC (Achub...
  Gorffennaf 5, 2014
- Gwobr 3* a 4* Ceufad...
  Gorffennaf 11, 2014
- Gwobrau Cerdded (Mentora) Rf:3
  Gorffennaf 12, 2014
- Datblygu sgiliau 2* a mentora...
  Gorffennaf 18, 2014
- Gwobr Dringen Sengl (Mentora) Rf...
  Gorffennaf 25, 2014
- Gwobrau Cerdded (Mentora) Rf:4
  Awst 16, 2014
- Gwobr Dringen Sengl (Mentora) Rf...
  Awst 20, 2014

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth. ›

Gŵyl Awyr Agored 2014

Hoffai'r Bartneriaeth Awyr Agored glywed barn aelodau'r clybiau am ba weithgareddau/sesiynau yr hoffent weld yn yr ŵyl awyr agored eleni, a gynhelir ym Mhlas y Brenin ar Fedi'r 20fed 2014. Byddem yn gwneud ein gorau i geisio gwella'r ŵyl o flwyddyn i flwyddyn ac felly yn agored i unrhyw awgrymiadau ynglŷn â pha weithgareddau i'w gynnig i aelodau'r clybiau a'u teuluoedd. Rydym yn chwilio yn benodol am weithgareddau blasu neu weithdai yr hoffech fynychu.
Os allwch chi neu eich clwb awgrymu unrhyw weithgareddau, cysylltwch â'r Bartneriaeth Awyr Agored ar 01690 720168 neu drwy e-bostio elin.humphreys@partneriaeth-awyr-agored.co.uk.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn cynnig eich...

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 10, 2014**

Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bartneriaeth Awyr Agored

Bydd CCB y Bartneriaeth yn cael ei gynnal ar Fedi'r 20fed 2014 ym Mhlas y Brenin. Yn ystod cyfarfod y Bwrdd yn ddiweddar, penderfynwyd bod cynnal CCB yn ystod y dydd yn rhwystro rhai o'n haelodau rhag bod yn bresennol. Penderfynwyd mai'r adeg orau i gynnal y CCB yw ar yr un dydd a'n Gŵyl Awyr Agored flynyddol.

Bydd mwy o wybodaeth am y CCB a'r ŵyl ar gael ein gwefan a'n tudalen Facebook o fewn yr wythnosau nesaf (trefniadau cadw lle, gweithgareddau,siaradwyr a.y.y.b).

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 9, 2014**

Sesiynau Blasu Tanddwr Sub-Aqua

Ydych chi'n hoff o weithgareddau tanddwr? Hoffech chi gael blas ar weithgaredd newydd?

Mae clwb Tanddwr Gwynedd yn gwahodd unigolion i gael blas ar sesiynau deifio ym Mhlas Arthur o ddiwedd Medi ymlaen.

Bydd y sesiynau yn ymdrin â diogelwch, technegau deifio ac yn eich dysgu am yr offer. Bydd yn agored i unrhyw oedran ond mae rhaid bod â'r gallu i nofio o safon resymol

Bydd pob sesiwn yn £15 ac yn rhedeg am gyfnod o 10 wythnos (nodwch, ni fydd sesiwn yn ystod hanner tymor yr Hydref)

Bydd hyfforddiant deifio Sgwba ar gael o'r 6ed o Hydref. I gofrestru ar gwrs Deifar Cenfor (Ocean Diver) y BSAC bydd rhaid i chi fod yn 12 oed neu'n hyn.

Ymwelwch â www.BSAC.com am fwy o fanylion.

Bydd...

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 9, 2014**

Cofiwch bod ni ar Twitter!

Yn ddiweddar, crëwyd cyfrif Twitter y Bartneriaeth Awyr Agored.

Mae'r cyfrif hwn wedi'i gysylltu â thudalen Facebook y Bartneriaeth yn y gobaith o ledu'n cynulleidfa a lledaenu'n negeseuon ar draws y rhwydwaith.

Oes gan eich clwb chi dudalen Twitter? Cofiwch roi tag arnom mewn unrhyw un o'ch gweithgareddau @PAA_TOP er mwyn i ni hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ar draws yr ardal.

Chwiliwch am y Bartneriaeth Awyr agored i'n dilyn ni neu dilynwch y ddolen yma i fynd yn syth at ein proffil

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mehefin 1, 2014**

Y Bartneriaeth Awyr Agored, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, **Capel Curig** Conwy, LL24 0ET. Tel: 01690 720106
info@outdoorpartnership.co.uk
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk